



Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

6 Rhagfyr 2021

Annwyl Elin

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu nad yw'r Offeryn Statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod ac y bydd yn dod i rym am 04:00 o'r gloch ddydd Mawrth 6 Rhagfyr, cyn y gellir ei osod. Rwy'n bwriadu ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, yfory.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 er mwyn gwneud y canlynol:

- Rhaid i deithwyr dros oedran penodol sydd wedi'u brechu'n llawn sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin gymryd prawf cyn gadael yn awr (mae'r rhai sy'n teithio o wledydd ar y rhestr goch yn parhau i gael eu gwahardd rhag teithio i Gymru) oni bai eu bod yn bodloni esemptiadau penodol;
- Mae'r trothwy oedran ar gyfer cymhwysu'r gofyniad uchod wedi newid o 11 oed i 12 oed;
- Mae'r amser pan fo rhaid cymryd prawf cyn ymadael wedi'i leihau i ddim mwy na 48 awr cyn ymadael.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn, mae'r offeryn statudol hwn hefyd yn gwneud newidiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Bobl sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services